

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Pysgota masnachol am ddraenogiaid môr
3. Disodli cwch a throsglwyddo awdurdodiad
4. Pysgota o'r lan am ddraenogiaid môr at ddibenion masnachol
5. Cychod pysgota siartredig
6. Pysgota hamdden am ddraenogiaid môr
7. Sefydliadau perthnasol eraill
8. Canllawiau pellach
9. Cyswllt

1. Cyflwyniad

Mae canllawiau'r diwydiant ar Ddraenogiaid Môr (*Dicentrarchus labrax*), a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn amlinellu'r rheolau, y rheoliadau a'r cyfyngiadau ar gyfer pysgota masnachol a physgota am ddraenogiaid môr at ddibenion hamdden yn nyfroedd y DU. Mae'r mesurau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi rheoli stociau draenogiaid môr Ewrop mewn ffordd gynaliadwy, gan sicrhau hyfywedd hirdymor y rhywogaeth a'r pysgodfeydd sy'n dibynnu arnynt.

Mae'r canllawiau'n gyfredol ac wedi ymgorffori'r holl ddiwygiadau i ddeddfwriaeth ym mis **Chwefror 2026** ac mae'n cynnwys:

- Prosesau awdurdodi ar gyfer cychod pysgota masnachol.
- Trosglwyddo awdurdodiadau.
- Terfynau glanio bellach yn cael eu gosod drwy drwydded y cwch pysgota.
- Rheolau penodol-i-offer ar gyfer pysgotwyr masnachol, gan gynnwys cyfyngiadau ar sgil-ddal mewn rhwydi cylch a rhwydi drysu wedi'u gosod.
- Cyfnodau dal a rhyddhau tymhorol a therfynau cadw dyddiol ar gyfer pysgotwyr hamdden.
- Maint cyfeirio cadwraethol lleiaf o 42cm ar gyfer yr holl draenogiaid môr a gedwir.

Nod y rheolaethau hyn yw cydbwyso cyfleoedd pysgota ag anghenion cadwraeth, gan adlewyrchu cyngor gwyddonol a chytundebau rhyngwladol rhwng y Deyrnas Unedig (DU) a'r Undeb Ewropeaidd (UE).

1.1 Deddfwriaeth Berthnasol

Mae'r prif reoliadau mewn perthynas â physgota am ddraenogiaid môr yn cael eu hamlinellu yn:

- [Rheoliad y Cyngor \(EU\) 2020/123](#)
- [Amodau Trwyddedau Cychod Pysgota](#)

2. Pysgota masnachol am ddraenogiaid môr

Mae dal, cadw, trawslwytho a glanio draenogiaid môr yn ddarostyngedig i gyfyngiadau. Mae'r cyfyngiadau hynny'n ymwneud â:

- ble a phryd y cewch ddal draenogiaid môr.
- sut rydych yn cael pysgota (math o offer) ac a oes gennych ganiatâd i wneud hynny.
- faint o bysgod y cewch eu cadw.
- maint lleiaf y rhwyll y cewch ei defnyddio i ddal draenogiaid môr.
- **I gael rhagor o wybodaeth am bysgota am ddraenogiaid at ddibenion hamdden a dibenion masnachol, gweler Erthygl 10 o [Reoliad y Cyngor \(EU\) 2020/123](#)**

2.1 Awdurdodiadau

Os ydych am ddal a chadw draenogiaid môr, rhaid ichi gael awdurdodiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru* i wneud hynny. Bydd pysgotwyr masnachol yn cael eu hawdurdodi i ddal a chadw draenogiaid môr ag offer penodol o fewn terfynau penodol. Mae awdurdodiad yn cael ei roi i gychod sydd â chofnod o lanio draenogiaid môr yn ystod y cyfnod cyfeirio rhwng 1 Gorffennaf 2015 a 30 Medi 2016, yn amodol ar unrhyw geisiadau llwyddiannus i drosglwyddo.

Yn dilyn diwygiad i'r rheoliad ar 31 Rhagfyr 2021, mae pob cwch pysgota masnachol bellach wedi'i awdurdodi i lanio sgil-ddalfeydd o ddraenogiaid môr â threillrwydi a rhwydi sân dyfnforol, ac nid oes angen awdurdodiad ysgrifenedig.

I fod yn glir, nid yw rhwydi cylch wedi'u cynnwys yn y categori treillrwydi a rhwydi sân. Gwaherddir glanio draenogiaid môr gan gychod sy'n defnyddio rhwydi cylch.

Pan fyddwch wedi cael awdurdodiad, byddwch wedi'ch awdurdodi i ddal a chadw draenogiaid môr â'r mathau o offer a restrir yn eich awdurdodiad, yn amodol ar y cyfyngiadau penodol ar gyfer pob math o offer.

**At ddibenion y canllawiau hyn, y gweinyddiaethau pysgodfeydd perthnasol yw: Y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) yn Lloegr, y Gyfarwyddiaeth Forol yn yr Alban, yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) yng Ngogledd Iwerddon, a Llywodraeth Cymru yng Nghymru.*

2.2 Pryd a ble y cewch ddal draenogiaid môr

Ni chewch ddal, cadw, trawslwytho neu lanio draenogiaid môr wedi'u dal o gwch neu o'r lan o'r ardaloedd **gwaharddedig** canlynol ar unrhyw adeg:


Ardal Forol	Rhaniadau Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES) – ardaloedd gwaharddedig
Tua'r De-orllewin	ICES 7b, 7c, 7j a 7k
Y Môr Celtaidd a Môr Iwerddon	Y tu allan i'r terfyn 12 milltir forol yn nyfroedd y DU yn ICES 7g a 7a

Yn ystod mis Ionawr ac o 1 Ebrill tan 31 Rhagfyr, dim ond os ydych wedi cael awdurdodiad gan Lywodraeth Cymru y caniateir dal, cadw, trawslwytho a glanio draenogiaid môr yn yr ardaloedd **cyfyngedig** isod. Gwaherddir pysgota am ddraenogiaid môr mewn unrhyw ardal gyfyngedig yn ystod mis Chwefror a Mawrth.

Ardal forol	Rhaniadau Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES) – ardaloedd cyfyngedig
Môr y Gogledd	4b, 4c
Y Sianel	7d, 7e
Y Môr Celtaidd	7f, 7g*
Môr Iwerddon	7a*
Tua'r De-orllewin	7h

(*o fewn terfyn 12 milltir forol y DU yn unig)

Bass Restricted Areas



Date of Publication: 31/07/2025
 Coordinate System: ETRS 1989 LAEA

Not to be used for navigation
 Contains Collins Bartholomew, Cornwall IFCA, Devon & Severn IFCA, Isles of Scilly IFCA, MMO and UKHO.
 © Collins Bartholomew, Cornwall IFCA, Devon & Severn IFCA, Isles of Scilly IFCA, MMO and UKHO copyright and database right 2025.
 © ICES Statistical Rectangles dataset 2020. ICES, Copenhagen.
 Contains public sector information licensed under the Open Government Licence v3.0

(7g a 7a o fewn terfyn 12 milltir forol y DU yn unig)

2.3 Offer pysgota ar gyfer cadw draenogiaid môr

Ni chewch ddal, cadw, trawslwytho neu lanio draenogiaid môr os nad ydych wedi cael awdurdodiad gan Lywodraeth Cymru.

Os ydych wedi cael awdurdodiad gan Lywodraeth Cymru i bysgota am ddraenogiaid môr, cewch ddal a chadw draenogiaid môr â'r offer canlynol:

- Rhwydi drysu wedi'u gosod (sgil-ddal).
- Bachyn a lein.

Mae pob cwch pysgota masnachol wedi'i awdurdodi i lanio draenogiaid môr sy'n cael eu dal â threillrwydi a rhwydi sân dyfnforol, ac nid oes angen awdurdodiad ysgrifenedig.

I fod yn glir, dal draenogiaid gan ddefnyddio bachyn a lein yw'r unig fath awdurdodedig o bysgota wedi'i dargedu. Wrth bysgota â rhwydi drysu wedi'u gosod, dim ond fel sgil-ddalfa y gellir pysgota a glanio draenogiaid môr.

Ni chewch ddal na chadw draenogiaid môr ag unrhyw offer arall, gan gynnwys treillrwydi pelagig, rhwydi cylch a rhwydi sy'n mynd gyda llif y cerrynt, neu sy'n gallu gwneud hynny.

Mae cyfyngiadau pysgota penodol ar gyfer draenogiaid môr ar gael yn [Amodau Trwyddedau Cychod Pysgota](#).

2.3.1 Rhwydi drysu wedi'u gosod

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod rhwydi drysu wedi'u gosod o fewn y diffiniad o 'rhwydi statig' yn [Erthygl 6, Rheoliad 2019/1241](#) sef "any type of gillnet, entangling net or trammel net that is anchored to the seabed for fish to swim into and become entangled or enmeshed in the netting".

Rhwydi wedi'u gosod yw'r rheini sydd wedi'u rhoi'n sownd wrth wely'r môr mewn safle parhaol drwy unrhyw gyfrwng fel pwysau, angorau neu byst. Byddan nhw wedi cael eu rhoi'n sownd yn y fath fodd fel na fydd y cerrynt yn gallu eu cario na'u symud.

Pan fydd rhwyd allan o'r dŵr (h.y. ar gwch pysgota), rhaid bod modd ei rhoi'n sownd ar unwaith wrth wely'r môr drwy unrhyw gyfrwng fel pwysau, angorau neu byst sydd naill ai wedi'u cysylltu wrth y rhwyd neu y gellid eu cysylltu wrth y rhwyd yn union cyn defnyddio'r rhwyd. Os nad oes modd cysylltu'r rhwyd wrth wely'r môr, nid ystyrir ei bod yn rhwyd sefydlog.

I osgoi unrhyw ddryswch, os oes pwysau, angorau neu eitemau eraill wedi'u cysylltu â'r rhwyd nad ydyn nhw'n ei gosod yn sownd wrth wely'r môr na'i rhwystro rhag cael drifftio (waeth beth yw cyflwr y cerrynt), ni fydd yn cael ei hystyried yn rhwyd sefydlog.

Ar gyfer y rhai sydd ag awdurdodiad i lanio draenogiaid môr fel sgil-ddalfa gan ddefnyddio rhwydi drysu wedi'u gosod, mae maint rhwyll lleiaf o 100mm ar waith o dan [Ran B, Rheoliad 2019/1241](#).

2.3.2 Defnyddio mwy nag un math o offer pysgota

Mae'r Drwydded Cwch Pysgota yn ei gwneud yn ofynnol i gychod pysgota'r DU gario un math o offer pysgota awdurdodedig yn unig ar daith bysgota, pan fyddan nhw'n cadw draenogiaid môr ar y cwch. Mae hyn yn berthnasol i fachyn a lein, rhwydi drysu wedi'u gosod a threillrwydi a rhwydi sân dyfnforol.

2.4 Faint o bysgod y caniateir eu cadw

Dim ond yn ddarostyngedig i'r terfynau isod y caiff cychod ag awdurdodiad gadw a glanio draenogiaid môr. Ni chewch drosglwyddo terfynau glanio rhwng cychod.

	Treillrwydi a rhwydi sân dyfnforol	Bachyn a Lein	Rhwydi Drysu wedi'u Gosod	Pob math offer arall (gan gynnwys rhwydi drifft)
Cyfyngiadau ar Bysgodfeydd	Ar gau mis Chwefror a mis Mawrth.	Ar gau mis Chwefror a mis Mawrth.	Ar gau mis Chwefror a mis Mawrth.	Gwaherddir pob dull o ddal draenogiaid môr.
Terfyn dalfa	Dim mwy nag 20% o bwysau'r holl bethau byw morol fesul taith. Sgil-ddal anochel 10 tonnall fesul cwch y flwyddyn	8 tonnall y flwyddyn	Sgil-ddalfa o 5.4 tonnall y flwyddyn	Gwaherddir pob dull o ddal draenogiaid môr.

I fod yn glir, ystyr blwyddyn yw blwyddyn galendr

2.5 Ardaloedd caeedig ychwanegol

Mae cyfyngiadau hefyd ar bysgota am ddraenogiaid môr mewn ardaloedd magu draenogiaid môr ar adegau penodol o'r flwyddyn. Mae'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i bysgotwyr masnachol a hamdden.

Mae [Gorchymyn Draenogiaid Môr \(Ardaloedd Penodedig\) \(Gwahardd Pysgota\) 1990](#) yn gwahardd pysgota am ddraenogiaid môr (*Dicentrarchus labrax*), neu bysgota am

unrhyw rywogaeth o bysgod môr gan ddefnyddio llymryaid (*Ammodytidae*) gan unrhyw gwch pysgota o fewn unrhyw ran o'r ardaloedd a ddisgrifir yn y gorchymyn ac yn ystod y cyfnod a bennir.

2.6 Taflu pysgod

Nid yw'r rhwymedigaeth lanio'n berthnasol i ddraenogiaid môr. Felly, rhaid taflu unrhyw ddraenogiaid môr sy'n cael eu dal ag offer anawdurdodedig, neu unrhyw ddalfeydd sy'n fwy na'r terfyn a ganiateir wrth ddefnyddio offer awdurdodedig, neu sy'n is na'r Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf.

Ym mis Chwefror a mis Mawrth, gwaherddir pysgota am ddraenogiaid môr, a rhaid dychwelyd unrhyw ddraenogiaid môr a ddelir yn ystod y cyfnod hwn i'r môr ar unwaith. Dylai pysgotwyr gymryd pob cam rhesymol i osgoi dal draenogiaid môr y bydd yn rhaid eu taflu.

Cychod dros 10m

Os bydd mwy na 50kg o ddraenogiaid môr yn cael eu taflu yn ystod taith, rhaid ichi gofnodi pwysau amcangyfrifedig y pysgod hynny yn eich llyfr log pysgota neu gofnod dalfeydd. Er enghraifft, os byddwch yn taflu 30kg ar y diwrnod cyntaf a 25kg yr ail ddiwrnod (cyfanswm o 55kg), rhaid ichi gofnodi'r pysgod hynny.

I gael rhagor o wybodaeth gweler: [Erthygl 14\(4\), Rheoliadau 1224/2009](#), [Gofynion Cyffredinol y Rhwymedigaeth Lanio 2025](#) a [Rhwymedigaeth lanio | LLYW. CYMRU](#)

Llongau o dan 10m

Rhaid i gychod pysgota sy'n gyfanswm o ddeg metr o hyd neu'n llai gofnodi yn y cofnod dalfeydd electronig amcangyfrifon o gyfaint yr holl ddraenogiaid môr maen nhw wedi'u taflu.

Am ragor o wybodaeth [Deall trwydded eich cwch pysgota | LLYW. CYMRU](#)

2.7 Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf (MCRS)

Y Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf ar gyfer draenogiaid môr yw 42cm.

Ni chewch gadw unrhyw sbesimenau o dan y maint hwn ar y cwch, yn hytrach rhaid eu dychwelyd i'r môr ar unwaith. Caiff swyddogion atafaelu unrhyw sbesimenau o dan y Maint Cyfeirio Rhwyll Lleiaf maen nhw'n dod o hyd iddyn nhw wedi'u storio, eu cludo neu eu cynnig i'w gwerthu i ganiatáu ymchwiliad i'r ffynhonnell.

3. Disodli cwch a throsglwyddo awdurdodiad

3.1 Trosglwyddo awdurdodiad rhwng dau gwch sy'n eiddo ichi

Os ydych yn disodli llong sydd ag awdurdodiad i ddal draenogiaid môr, bydd trosglwyddo'r awdurdodiad yn cael ei ystyried ar yr amod nad yw'r cwch yn fwy o ran maint yr injan na thunelledd.

Fodd bynnag, mae cychod corff sengl sy'n llai na chyfanswm o wyth metr o hyd wedi'u hesemptio o'r rheolau o ran maint injan a thunelledd.

Perchennog y cwch sy'n gyfrifol am geisio'r caniatadau perthnasol gan Lywodraeth Cymru cyn ymrwymo i brynu cwch pysgota newydd, pan fydd am drosglwyddo unrhyw awdurdodiad presennol.

I fod yn glir, ystyr cwch newydd yw cwch pysgota sy'n newydd ichi (newydd ei adeiladau neu ei brynu) yr hoffech drosglwyddo eich awdurdodiad draenogiaid môr presennol iddo o gwch sydd eisoes ag awdurdodiad i ddal draenogiaid môr o dan eich enw chi.

Ni fydd unrhyw gais i drosglwyddo awdurdodiad i ddal draenogiaid môr yn cael ei brosesu nes bod y cwch newydd wedi cael ei gofrestru a'i drwyddedu.

Dylai perchnogion sy'n bwriadu gwerthu cychod sy'n cael eu disodli hefyd sicrhau bod y prynwr yn ymwybodol y bydd y llong sy'n cael ei werthu yn colli ei awdurdodiad i ddal draenogiaid môr pan fydd y trosglwyddo wedi'i gwblhau (efallai y bydd angen tystiolaeth ysgrifenedig gan y prynwr i gadarnhau ei fod yn deall). Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod prynwyr yn cadarnhau bod gan y cwch unrhyw awdurdodiadau sydd eu hangen cyn cwblhau'r prynu'r cwch.

3.2 Trosglwyddo awdurdodiad i ddal draenogiaid môr pan fydd cwch yn cael ei werthu

Nid yw awdurdodiadau i ddal draenogiaid môr yn cael eu trosglwyddo gyda'r drwydded. Bydd awdurdodiadau'n trosglwyddo i berchennog newydd y cwch pan drosglwyddir perchnogaeth y llong. Caiff cyfran y ddalfa y mae'r cwch hwnnw wedi'i ddal hefyd ei drosglwyddo - h.y. ni fydd y ddalfa yn mynd yn ôl i zero. Er enghraifft, os yw cwch wedi cyrraedd ei derfyn blyneddol ar gyfer dal draenogiaid môr â bachyn a lein, ni chaiff y perchennog ddal a chadw rhagor o ddraenogiaid môr â bachyn a lein yn ystod y flwyddyn honno.

4. Pysgota o'r lan am ddraenogiaid môr at ddibenion masnachol

Gwaherddir pysgota o'r lan at ddibenion masnachol yn llwyr, oni bai ei fod wedi'i awdurdodi'n benodol gan Awdurdod Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau (IFCA) perthnasol yn Lloegr neu Lywodraeth Cymru yng Nghymru. Gellir caniatáu awdurdodiadau mewn pedair ardal hyd at y terfynau canlynol:

- 26 awdurdodiad rhwyd mewn perthynas ag IFCA y Gogledd Orllewin
- 5 awdurdodiad rhwyd mewn perthynas ag IFCA y Gogledd Ddwyrain, ac
- 1 awdurdodiad rhwyd mewn perthynas ag IFCA Dyfnaint a Hafren, a
- 50 awdurdodiad rhwyd ym mharth Cymru.

Ni chaniateir pysgota masnachol arall o'r lan am ddraenogiaid

5. Cychod pysgota siartredig

Dylai gweithredwyr cychod sy'n dymuno ymgymryd â gweithgareddau siarter ymgyfarwyddo â chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr MMO ar pysgota masnachol a hamdden ([Pysgota masnachol a hamdden](#)).

Wrth ymgymryd â gweithgaredd masnachol, fel y cyfeirir ato yn y canllawiau hynny, gan ddefnyddio cwch sydd â thrwydded cwch pysgota y DU, dylid dilyn yr holl reoliadau a gofynion perthnasol ar gyfer gweithgareddau pysgota masnachol, gan gynnwys amodau trwydded cwch pysgota ac unrhyw awdurdodiad draenogiaid môr wedi'i gyhoeddi gan y weinyddiaeth bysgodfeydd berthnasol.

Rhaid i gychod nad oes ganddyn nhw drwydded neu gychod sydd â thrwydded sy'n ymgymryd â gweithgareddau hamdden (fel y cyfeirir atyn nhw yn y canllawiau uchod) gadw at y terfynau ar gyfer dal at ddibenion hamdden fel y'i hamlinellir yn adran 6.1.

Sylwer, efallai y bydd rheoliadau gan sefydliadau eraill yn berthnasol i'ch gweithgareddau pysgota. Gweler adran 7 am ragor o fanylion.

6. Pysgota hamdden am ddraenogiaid môr

Mae'r rheoliadau wedi'i hamlinellu isod yn gymwys os ydych yn pysgota o gwch neu o'r lan.

6.1 Terfyn Dalfa

Mae pysgota hamdden, gan gynnwys o'r lan, ym mharthau ICES 4b, 4c, 6a, 7a a 7d i 7j wedi'i gyfyngu i ddal a rhyddhau gan ddefnyddio gwialen a lein law yn unig rhwng 1 Chwefror a 31 Mawrth.

Y tu allan i'r cyfnod hwn, mae pysgotwyr hamdden wedi'u cyfyngu i derfyn bag o dri physgodyn y dydd fel y cytunwyd mewn trafodaethau blynyddol gyda'r UE ac a ddiwygiwyd gan [The Sea Fisheries \(Amendment\) Regulations 2026](#).

6.2 Ardaloedd caeedig ychwanegol

Yn ogystal â'r cyfnod dal a rhyddhau rhwng 1 Chwefror a 31 Mawrth, efallai y bydd cyfnodau dal a rhyddhau ychwanegol o fewn ardaloedd magu draenogiaid môr. Gweler [Gorchymyn Draenogiaid Môr \(Ardaloedd Penodedig\) \(Gwahardd Pysgota\) 1990](#) am wybodaeth am ardaloedd magu draenogiaid môr.

6.3 Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf (MCRS)

Maint isaf Ewrop ar gyfer draenogiaid môr yw 42 cm. Rhaid rhyddhau pob sbesimen o dan y maint hwn.

6.4 Mathau o offer pysgota

Ni chaniateir cymryd draenogiaid môr â rhwydi wedi'u gosod

7. Sefydliadau perthnasol eraill

- Yn dibynnu ar eich gweithgaredd pysgota, efallai y bydd angen ichi ymgynghori â sefydliadau perthnasol eraill i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'u gofynion nhw: Bydd eich [Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau \(IFCA\) lleol yn Lloegr](#) yn gallu rhoi gwybod ichi am unrhyw gyfyngiadau IFCA lleol.
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau [Pysgota, Canllawiau MCA](#) Rheoliadau cychod pysgota hamdden a masnachol, codau ymarfer, diogelwch, offer a hyfforddiant.

8. Canllawiau Pellach

8.1 Canllawiau'r MMO a Llywodraeth Cymru

[Guidance on the landing obligation](#)

[Commercial and recreational fishing](#)

[Landing obligation general requirements 2025](#)

[Fishing Vessel Licence Schedules](#)

8.2 Diwygio deddfwriaeth sylfaenol

[Council Regulation \(EU\) 2020/123](#)

[The Sea Fisheries \(Amendment\) Regulations 2021](#)

[The Sea Fisheries \(Amendment\) \(No. 2\) Regulations 2021](#)

[The Sea Fisheries \(Amendment\) Regulations 2022](#)

[The Sea Fisheries \(Amendment\) Regulations 2023](#)

[The Sea Fisheries \(Amendment\) \(No. 2\) Regulations 2024](#)

[The Sea Fisheries \(Amendment\) Regulations 2026](#)

Mae pob cyfeiriad at gyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn y canllawiau hyn yn gyfeiriadau at reoliadau'r UE fel y'u dargedwir yng nghyfraith y DU..

9. Cyswllt

I gael rhagor o arweiniad, e-bostiwr

SwyddfaPysgodfeyddAberddaugleddau@llyw.cymru neu [cysylltwch â Swyddfa
Pysgodfeydd Aberddaugleddau Llywodraeth Cymru ar 03000 253500.](tel:03000253500)